

Effaith

Blaenau Gwent



Cronfa Busnes Effaith BG

Cefnogi Menter ym Mlaenau Gwent

Canllawiau Cynllun



Cronfa Busnes Blaenau Gwent

Nodiadau a Chanllawiau ar gyfer Ymgeiswyr

PWYSIG

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau a'r canllawiau hyn cyn llenwi eich ffurflen gais - byddant yn eich helpu i lenwi eich cais yn gywir a helpu osgoi unrhyw oedi wrth brosesu.

Crynodeb

1. Beth yw Cronfa Busnes Effaith BG?
2. Beth yw Menter?
3. Pa fath o weithgareddau y gellir eu cefnogi?
4. Pa fath o weithgareddau na ellir eu cefnogi?
5. Pwy all wneud cais?
6. Pwy na all wneud cais am Gronfa Busnes Effaith BG?
7. Am faint y gallaf wneud cais?
8. Sut y caiff y gronfa ei thalu?
9. Allbynnau a chanlyniadau
10. A gaf fy monitro?
11. Pwy sy'n gwneud y penderfyniad?
12. A oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?
13. Beth i'w wneud nesaf?

1. Beth yw Cronfa Busnes Effaith BG?

Sefydlwyd cronfa busnes Effaith BG i helpu busnesau newydd ym Mlaenau Gwent sydd ag uchelgais am dwf.

Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol i ddatblygu syniad busnes, darparu'r offer ac adnoddau angenrheidiol i gychwyn busnes a helpu i dalu am gostau lleoliad busnes neu ffioedd proffesiynol ac yn y blaen.

Diben y gronfa yw hyrwyddo amodau i gynorthwyo'r rhai sy'n dymuno cychwyn eu busnes neu fenter eu hunain. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor a chefnogaeth

arbenigol i ddatblygu cynllun busnes, darparu'r offer angenrheidiol neu adnoddau i gychwyn busnes, helpu gyda chostau lleoliad busnes ac yn y blaen.

2. Beth yw Menter?

EFFAITH BG oedd y prosiect cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu model Hwyluso Menter Sirolli®. Y bwriad oedd i'r prosiect ategu gwasanaethau cymorth busnes a menter a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a sefydliadau eraill fel Busnes Cymru.

Mae Hwyluswyr Menter yn darparu cymorth trwyadl, un i un. Maent yn cysylltu cleientiaid gyda rhwydweithiau eang o bobl a'r gwahanol raglenni ac adnoddau a gynigir gan sefydliadau datblygu a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r gymuned leol.

3. Pa fath o weithgareddau y gellir eu cefnogi?

Mae unrhyw weithgaredd sy'n helpu i roi syniad ar waith mewn busnes go iawn yn gymwys i dderbyn cyllid.

Mae'r dilynol yn enghreifftiau o'r math o gymorth y gellid cyflwyno ceisiadau ar eu cyfer:

- Cymorth a chynngor arbenigol i ddatblygu eich syniad busnes, e.e. ymchwil marchnad, costau cyfreithiol a chyfrifeg, astudiaeth dichonolrwydd ac yn y blaen
- Prynu'r offer hanfodol sydd ei angen i weithredu'r busnes
- Cost deunyddiau marchnata i gychwyn eich busnes, e.e. taflenni, cardiau busnes, baneri, gwefan ac yn y blaen
- Rhentu safle/adeilad addas i weithredu'r busnes ohono
- Gwaith atgyweirio neu wella golwg safle a ddefnyddiwyd ar gyfer diben y busnes

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain. Croesawn bob math o gais sy'n gydnaws gyda nodau Cronfa Fusnes Effaith BG.

4. Pa fathau o weithgareddau na ellir eu cefnogi?

Mae'r rhestr ddilynol yn rhoi rhyw syniad o'r mathau o weithgaredd **na all** Effaith BG eu cefnogi:

- ceisiadau ar gyfer eitemau amhenodol (e.e. arian mewn cronfa wrth gefn)

- ceisiadau ôl-weithredol, er enghraifft ni fedrem dderbyn cais am wasanaeth sydd eisoes wedi'i ddarparu neu ased sydd eisoes wedi'i phrynu
- unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig ag ymgyrch wleidyddol
- unrhyw weithgaredd sy'n anghyfreithlon neu sydd, ym marn y Cyngor, yn annog torri'r gyfraith neu ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ni ddyfernir Cronfa Fusnes Effaith BG os na all yr ymgeisydd ddangos yn glir na all y busnes symud ymlaen heb y gefnogaeth y gwnaed y cais amdano.

5. Pwy all wneud cais?

Gallwch wneud cais am Gronfa Busnes Effaith BG;

- os oes gennych syniad am fusnes neu/ac angen cefnogaeth i'w weithredu
- os ydych yn unigolyn neu'n grŵp o bobl sy'n dymuno sefydlu busnes newydd
- os ydych eisiau sefydlu eich busnes ym Mlaenau Gwent
- p'un ai yw'r busnes neu fenter arfaethedig yn weithgaredd rhan-amser neu lawn-amser
- os yw'r gronfa hon yn hanfodol er mwyn cychwyn y busnes (e.e. ni fydddech yn gallu cychwyn y busnes heb yr offer neu wasanaethau yr ydych yn gwneud cais amdanynt)
- os yw'r busnes y bwriadwch ei sefydlu yn un newydd (e.e. dim yn cymryd busnes drosodd) ac yn annibynnol o unrhyw fusnes arall
- os cytunwch roi tystiolaeth y defnyddiwyd unrhyw gyllid a ddyfarnwyd ar gyfer y diben a gymeradwywyd

Anelir Cronfa Busnes Effaith BG i gefnogi preswylwyr presennol Blaenau Gwent ac annog rhai sydd wedi gadael ond a hoffai ddychwelyd i fuddsoddi yn eu bro enedigol.

6. Pwy na all wneud cais am Gronfa Busnes Effaith BG?

Ni fydd cronfa Effaith BG ar gael i'r dilynol:

- rhai na fydd eu busnes newydd yn seiliedig ym Mlaenau Gwent
- grwpiau gwirfoddol/ cymunedol / elusennau a gwleidyddol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr drafod cynigion gyda'r Hwylusydd Effaith cyn cyflwyno cais i sicrhau eu bod yn ateb y meini prawf ar gyfer cymhwyster.

7. Am faint y gallaf wneud cais?

Gellir dyfarnu hyd at 80% o'r costau cymwys i ymgeiswyr Cronfa Fusnes Effaith BG.

Caiff ceisiadau hyd at £1,000 eu hystyried ar gyfer unrhyw un sy'n sefydlu busnes llawn-amser. Bydd uchafswm lefel y cyllid yn mynnu ymrwymiad tymor hirach i wneud y busnes yn llwyddiant. Mae'n rhaid i geisiadau am fusnesau newydd llawn-amser gynnwys tystiolaeth o gynllunio ar gyfer y dyfodol, tystiolaeth fod y busnes yn fusnes cynaliadwy a rhagolygon ariannol manwl.

Mae'n rhaid anfon cynllun busnes a rhagolwg ariannol gyda phob cais. Gall yr Hwylusydd Effaith eich cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Busnes a'ch cyngori am sefydliadau sydd ar gael i helpu.

Byddwn hefyd yn gofyn fod ceisiadau ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn defnyddio cyflenwyr lleol yn ardal Blaenau Gwent lle mae'n bosibl.

Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn ein hysbysu os ydych wedi derbyn (neu wneud cais am) unrhyw gyllid arall neu p'un ai a fyddwch yn buddsoddi eich arian eich hun. Bydd angen i chi brofi i'r Swyddog Datblygu Busnes fod gennych y 20% o arian cyfatebol sydd ei angen. Ni feddir hawlio costau Treth ar Werth.

8. Sut y caiff Cronfa Busnes Effaith BG ei thalu?

- Caiff y gronfa gymeradwy ei thalu cyn gynted ag mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi cwblhau pob elfen o'r broses gais; manylion a gaiff eu hegluro yn ystod cyfarfod gyda Swyddog Datblygu Busnes cyn cyflwyno cais.
- Pan dderbynnir cytundeb grant wedi'i lofnodi, caiff 50% o'r cyllid a gytunwyd ei ryddhau i'r busnes a chaiff y 50% arall ei ryddhau unwaith y dangoswyd derbyniadau ar gyfer pryniadau angenrheidiol. (Gweler yr adran monitro islaw)

Pan dderbynnir contract wedi'i lofnodi yn cytuno i ddefnyddio'r gronfa gymeradwy ar gyfer y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer, yna disgwylir i'r ymgeisydd brynu'r eitem(au) neu wasanaeth(au) a gytunwyd a rhoi tystiolaeth o brynu i ni ar ffurf

derbynneb am daliad, tystiolaeth ffotograffig a rhifau cyfres offer lle'n berthnasol. Pan dderbynnir hyn, caiff y gronfa gymeradwy ei thalu o fewn 28 diwrnod.

Os yw'r broses o dalu'n llawn am nwyddau/gwasanaethau gan yr ymgeisydd ymlaen llaw yn atal ymgeiswyr rhag cyflwyno cais, gellir trafod proses arall o flaendaliadau mewn camau gyda'r Hwylusydd Menter yn ystod trafodaethau dechreuol y prosiect.

9. A gaf fy monitro?

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, cewch eich monitro er mwyn:

- asesu os cafodd y gronfa gymeradwy ei gwario ar beth bynnag a gymeradwywyd
- sicrhau fod y syniad busnes yn symud ymlaen yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd
- casglu gwybodaeth am y math o weithgaredd cychwyn busnes fel canlyniad i Gronfa Fusnes Effaith BG
- asesu llwyddiannau Cronfa Busnes Effaith BG drwy farchnata dilynol ac astudiaethau achos

11. Pwy sy'n gwneud y penderfyniad?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn asesu pob cais ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ar bob cais.

Mae gan ymgeiswyr hawl i adborth am benderfyniad y Cyngor y gallant ei gael drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad islaw.

12. A oes dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ?

Caiff Cronfa Busnes Effaith BG ei gweinyddu ar sail cyntaf i'r felin..

13. Beth i'w wneud nesaf

I drafod eich syniad am fusnes newydd ac asesu os yw'ch prosiect yn gymwys am gymorth ariannol, cysylltwch â:

Uned Datblygu Economaidd ar 01495 355700
neu e-bost: business@blaenau-gwent.gov.uk

Bydd wedyn angen i chi gyflwyno:-

- Ffurflen cofrestru diddordeb
- Ffurflen gais
- Cynllun Busnes wedi'i lenwi a dogfennau rhagolygon ariannol
- 2 dyfynbris am bob eitem sydd eu hangen
- Dogfennau adnabod

Rhaid i'ch cais am grant gael ei gymeradwyo cyn unrhyw wariant yn ymwneud â'r cais. Ni fydd unrhyw arian grant ar gael ar gyfer unrhyw wariant a wnaed cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.

Mae'n rhaid i'r holl waith cymeradwy gael ei orffen a chyflwyno tystiolaeth o daliad gan yr ymgeisydd cyn y gellir hawlio'r grant. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth hon gynnwys anfonebau gan y cyflenwr a ddewiswyd a chopi o'r gyfriflen banc yn dangos taliad.

Manylion Cyswllt:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Adeilad Bwrdeisiol
Canolfan Ddinesig
Glynebwy
Blaenau Gwent
NP23 6XB

Ffôn: 01495 355700

E-bost: business@blaenau-gwent.gov.uk